# ATHROFA ARFER CYNALIADWY, ARLOESI, YMCHWIL A MENTER (INSPIRE)
# DATGANIAD PREIFATRWYDD

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw'r rheolydd data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau cleientiaid a phartneriaid yn unol â Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Mae gan y Drindod Dewi Sant Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef yn foi@uwtsd.ac.uk.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Brifysgol yn trin ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn ystod eich cyfnod fel darpar gleient neu bartner / fel cleient neu bartner cyfredol i'r Drindod Dewi Sant ac ar ôl i'n perthynas ddod i ben. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw ynghylch y wybodaeth mae'n ei chadw amdanoch. Mae gan y Brifysgol ystod o bolisïau a gweithdrefnau diogelu data yn eu lle, sydd i'w gweld yn https://www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau/

## Pa wybodaeth byddwn yn ei chasglu amdanoch?

Yn ychwanegol at wybodaeth dechnegol a busnes rydych yn ei datgelu i ni er mwyn i ni allu cefnogi eich ymholiad/cydweithrediad/cyngor, byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol isod gan unigolion a sefydliadau sy'n dymuno derbyn cymorth neu sy'n bartner i'r Drindod Dewi Sant:

- Enw prif gyswllt/swyddogion technegol/gweithwyr y sefydliad sy'n ymwneud â'r cymorth/cydweithrediad/contract;
- Manylion cyswllt gwaith staff sy'n ymwneud â'r cymorth /cydweithrediad /contract;
- Swydd/teitl staff sy'n ymwneud â'r cymorth/cydweithrediad/contract;
- Manylion cyswllt cydweithwyr a chynorthwywyr staff allweddol;
- Iaith gyfathrebu ddewisol cysylltiadau;
- Gwybodaeth am ymgysylltiad unigolyn â'r brifysgol megis presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithdai, gweithgarwch ac ymchwil cydweithredol, gwasanaethau ymgynghori ac ati;
- Gwybodaeth a gasglwyd at ddibenion Monitro Cyfle Cyfartal ac ati;
- Gwybodaeth yn ymwneud â darparu cyngor a chymorth;
- Dewisiadau ynghylch meysydd o ddiddordeb ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol a dulliau o gysylltu â chi.

Bydd y Drindod Dewi Sant yn casglu data amdanoch wrth ymdrin â chi fel darpar gleient neu bartner / fel cleient neu bartner cyfredol. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn derbyn gwybodaeth amdanoch o'r tu allan i'r Brifysgol er enghraifft gan sefydliadau partner mewn prosiect, e.e. Innovate UK, neu Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI). Rheolir eich gwybodaeth yn briodol gan y Drindod Dewi Sant ac yn unol â'r prosesu, fel y'i nodwyd yn y datganiadau preifatrwydd priodol. Pan fydd hyn yn digwydd, caiff data eu cadw gan INSPIRE a'r Drindod Dewi Sant a'u rheoli'n unol â'r datganiad preifatrwydd hwn. Pan gaiff yr un wybodaeth ei chadw gan ein partneriaid prosiect,

byddwn yn eglur o ran sut maent yn cadw ac yn rheoli eich gwybodaeth drwy ddarparu eu datganiad preifatrwydd hwythau.

## Pam byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol a sut byddwn yn ei defnyddio?

Er nad yw'n bosibl nodi pob diben y defnyddir eich gwybodaeth ato, isod rhoddir enghreifftiau o'r modd y mae'n debygol o gael ei defnyddio tra byddwch yn gleient/partner.

1. Er mwyn gwerthuso cymhwystra am gymorth gan y Brifysgol yn ôl gofynion cydymffurfiaeth cyllido a phroses y Brifysgol i gymeradwyo prosiectau;
2. Er mwyn monitro a gwerthuso'r ymgysylltu ar lefel rheoli a llywodraethu gweithrediadau;
3. Er mwyn adrodd wrth gyllidwyr prosiectau a cheisiadau llywodraeth am ddata;
4. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth am eich gweithwyr neu eich sefydliad yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau neu gyngor ar gyfer eich sefydliad ac yn rhan o'r gofyniad am adroddiadau statudol ynghylch Rhyngweithio Busnes a Chymuned - Addysg Uwch wrth HESA a chyrff adrodd eraill;
5. Er mwyn dadansoddi'n ystadegol y perthnasoedd masnachol sy'n bodoli ar draws y Drindod Dewi Sant o bryd i'w gilydd;
6. Er mwyn cynnig gwasanaethau gan y Drindod Dewi Sant i danysgrifwyr Corfforaethol;
7. Mewn cysylltiad â chyflawni Prosiectau Ymchwil/gweithgarwch archifo fel y'i cynhelir yn arferol gan sefydliadau cyhoeddus ac yn unol â mesurau diogelu Erthygl 89. Nid ymgymerir â marchnata uniongyrchol i chi heb sail gyfreithiol briodol.

## Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth?

(1) Pan fydd prosesu data personol yn angenrheidiol er mwyn darparu cynnyrch neu wasanaeth ar eich cyfer, mae'n debygol yr ystyrir bod y prosesu'n angenrheidiol er mwyn gweithredu eich cytundeb contractiol neu er mwyn cymryd camau ar gais yr unigolyn cyn ymrwymo wrth gontract. Gweler Erthygl 6(1)(b) GDPR y DU.

(2) Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o brosesu'n angenrheidiol er mwyn dilyn ein buddiannau dilys neu drwy fuddiannau dilys trydydd parti, gweler Erthygl 6(1)(f) GDPR y DU, ac eithrio pan fydd buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data yn trechu buddiannau o'r fath ac yn gwneud diogelu data personol yn angenrheidiol. Mae Cronicliad 47 o GDPR y DU yn cydnabod bod modd ystyried bod prosesu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol yn cael ei gyflawni er budd dilys. Fodd bynnag, cyflawnir prosesu o'r fath dim ond pan fydd asesiad o fuddiannau dilys wedi'i gynnal, er mwyn sicrhau bod eich data personol yn cael eu defnyddio'n briodol ac mewn ffyrdd y byddech yn eu disgwyl yn rhesymol ac sy'n cael yr

effaith leiaf bosibl ar breifatrwydd, neu pan fo cyfiawnhad grymus dros y prosesu.

(3) Bydd y Brifysgol yn gofyn am eich cydsyniad (gweler Erthygl 6 (1) (a) GDPR y DU) i helpu gyda gofyniad penodol (er enghraifft angen deietegol neu fater ynghylch symudedd). Pan gaiff y Data Categori Arbennig hyn eu rhannu bydd hynny mewn cysylltiad â'r diben a nodwyd yn unig (er enghraifft ond nid yn gyfyngedig i hynny, digwyddiad a gynhelir gan y Brifysgol) a dilëir y data hynny cyn gynted â phosibl wedi hynny.

(4) Gallai fod angen prosesu eich data personol er mwyn cyflawni tasg a wneir er lles y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd i'r Brifysgol (gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

## Pwy fydd yn derbyn eich gwybodaeth?

Caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio ar ein systemau electronig a chronfeydd data diogel a chaiff ei rhannu â chydweithwyr perthnasol yn y brifysgol ar sail angen gwybod er mwyn darparu gwasanaethau a chyngor ar eich cyfer. Diogelir gwybodaeth bersonol gan y Brifysgol ac ni chaiff ei datgelu i drydydd partïon heb gydsyniad ac eithrio pan fydd hynny'n angenrheidiol yn rhan o'n rhwymedigaethau contractiol e.e. i gyllidwyr prosiectau neu fel y caniateir o dan y gyfraith.

Rhoddir gwybodaeth ar gael i unigolion neu sefydliadau sydd angen mynediad am y rhesymau a nodir uchod. Yn eu plith mae:

- Staff academaidd, technegol a gweinyddol y Brifysgol;
- Byrddau llywodraethu a rheoli gweithrediadau'r Brifysgol;
- Cyllidwyr a phartneriaid/cynghorwyr allanol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cydweithrediad â'r Drindod Dewi Sant;
- Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy adroddiadau ystadegol e.e. yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac ati.
- Bydd unrhyw ddatgeliadau gan y Brifysgol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data a rhoddir ystyriaeth i'ch buddiannau.

## Am faint y caiff eich gwybodaeth ei chadw?

Efallai y cedwir eich data personol drwy gydol eich ymgysylltiad â'r Drindod Dewi Sant ac am gyfnod rhesymol o amser ar ôl iddo ddod i ben er mwyn cydymffurfio ag archwiliadau rheoleiddio a pholisïau cadw cofnodion y Brifysgol. Mae'n bosibl y cedwir gwybodaeth sydd gennym at ddibenion ymchwil ac archifo am gyfnod hirach ac yn unol â mesurau diogelu Erthygl 89 GDPR y DU. http://www.privacy-regulation.eu/en/article-89-safeguards-and-derogations-relating-to-processing-for-archiving-purposes-the-public-interest-scientific-or-hi-GDPR.htm

## Sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio?

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data mae’n rhaid i ni gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hynny y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir pob cam priodol i atal mynediad a datgeliad heb ganiatâd. Dim ond aelodau o’r staff y mae angen iddynt gael mynediad at rannau perthnasol neu eich holl wybodaeth a gaiff hawl i wneud hynny. Bydd gwybodaeth amdanoch ar ffurf electronig yn amodol ar gyfrinair a chyfyngiadau diogelwch eraill, ac yn cael ei chadw ar rwydweithiau diogel y brifysgol, tra cedwir ffeiliau papur mewn mannau diogel gyda mynediad rheoledig.

Mae’n bosibl y gwneir rhywfaint o brosesu ar ran y Brifysgol gan sefydliad a gontractiwyd at y diben hwnnw. Bydd sefydliadau sy’n prosesu data personol ar ran y Brifysgol wedi eu rhwymo o dan rwymedigaeth i brosesu data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

## Beth yw eich hawliau?

Mae gennych hawl i weld eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, i gywiro, dileu, cyfyngu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol (sylwer fodd bynnag fod hyn yn debygol o effeithio ar ein gallu i roi cymorth i chi yn y ffordd fwyaf effeithiol, os o gwbl). Os ydych wedi rhoi cydsyniad i’r Drindod Dewi Sant brosesu unrhyw ran o'ch data, mae gennych hefyd hawl i dynnu’r cydsyniad hwnnw yn ôl.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data’r Brifysgol:-

Paul Osborne
Swyddog Diogelu Data
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Mount Pleasant, Abertawe, SA1 6ED
foi@uwtsd.ac.uk
01792 481000

## Sut i wneud cwyn

Os ydych yn anhapus â’r modd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi’i phrosesu, i ddechrau cewch gysylltu â Swyddog Diogelu Data’r Brifysgol trwy ddefnyddio’r manylion cyswllt uchod.

Os byddwch yn parhau heb eich bodloni, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol -

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,

SK9 5AF
www.ico.org.uk

## Eich cyfrifoldebau chi

Rhowch wybod am unrhyw newidiadau yn eich enw, cyfeiriad, manylion cyswllt ac ati cyn gynted ag y bo'n bosibl yn ymarferol er mwyn i ni allu newid ein cofnodion yn unol â hynny.

Ni ddylech ddefnyddio eich perthynas a'ch cydweithrediad â'r Drindod Dewi Sant at unrhyw ddibenion o ran y wasg neu farchnata heb gydsyniad eglur y Drindod Dewi Sant.

## Canlyniadau peidio â darparu eich gwybodaeth

Byddai canlyniadau peidio â darparu eich gwybodaeth pan ofynnir amdani er mwyn cwblhau contract neu er mwyn cymryd camau ar gais yr unigolyn cyn ymrwymo i gontract, yn golygu na fydd y Brifysgol yn gallu cynnig i chi rai ac yn wir efallai unrhyw un o'i chynhyrchion a'i gwasanaethau.

## Newidiadau yn ein Polisi Preifatrwydd

Caiff unrhyw newidiadau a wnawn yn ein polisi preifatrwydd yn y dyfodol eu postio ar y dudalen hon. Gwiriwch yn aml i weld unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau yn ein polisi preifatrwydd.

## Cydsyniad i Dderbyn Marchnata Electronig

Fel cysylltiad gwerthfawr i RIES yn y Drindod Dewi Sant, hoffem fod yn eglur i chi bod eich data yn cael eu cadw yn ein Cronfa Ddata Perthnasoedd. Dynodwyd eich manylion naill ai drwy gysylltiad â'r Drindod Dewi Sant neu drwy ein gweithgareddau datblygu perthnasoedd.

Caiff eich gwybodaeth ei chadw gan INSPIRE yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol y gellir ei weld drwy'r ddolen isod.

https://www.uwtsd.ac.uk/cy/amdano/strategaethau-a-pholisiau/

Caiff eich gwybodaeth ei chadw er mwyn ein galluogi i gyfathrebu â chi, ateb eich ymholiadau a rhoi cyfarwyddyd a chyngor.

Yn unol â deddfwriaeth byddwn bob amser yn rhoi cyfle i chi optio allan o farchnata electronig perthnasol yn y dyfodol gan INSPIRE.

I optio allan o dderbyn gohebiaeth marchnata uniongyrchol gan INSPIRE, anfonwch e-bost i
Business@uwtsd.ac.uk

Dynodir y Drindod Dewi Sant yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** a **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** ac felly mae'n gallu derbyn ceisiadau am wybodaeth a gofnodwyd. Bydd y Brifysgol yn ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu Wybodaeth Amgylcheddol dan ei rhwymedigaethau statudol ac yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth berthnasol.